**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

AC(4)2011(1) Papur 2 Atodiad C

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Dirprwyo swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad

1. Yn unol â darpariaethau paragraff 7 Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwyir drwy hyn swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn ddarostyngedig i'r eithriadau ac amodau a ganlyn.

2. Ni ddirprwyir y materion canlynol:

    a) penodiad, telerau ac amodau a thâl y Prif Weithredwr a'r Clerc, cynghorwyr anweithredol y Comisiwn, ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio; nac

    b) awdurdodi gwariant o dan baragraff 6 Atodlen 2 i Ddeddf 2006 (sef darparu cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol).

3. Rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn cyn:

    a) penodi ar gyfer swyddi'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol;

    b) newid tâl a thelerau ac amodau'r staff sydd yn y swyddi hynny;

    c) creu swyddi cyfarwyddo newydd neu ddiddymu swyddi cyfarwyddo sydd eisoes yn bodoli;

    d) awdurdodi gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n fwy nag £1 miliwn; ac

    e) awdurdodi gwariant ar faterion y gellid eu hystyried yn newydd neu'n ddadleuol.

4. Nid yw dirprwyo'r swyddogaethau uchod yn rhwystro'r Comisiwn rhag ymgymryd â'r swyddogaethau dirprwyedig hynny.

*Arwyddwyd ar ran y Comisiwn gan y Llywydd*

.......................................................

Mehefin 2011